



# CAIS AM DYSTIOLAETH

ADOLYGIAD O ARLOESI DIGIDOL AR GYFER YR ECONOMI  
A DYFODOL GWAITH YNG NGHYMRU

MEDI 2018 (DIWEDDARWYD TACHWEDD 2018)



## CYNNWYS

---

Rhagair gan y Cadeirydd	2
Cefndir	3
Manylion ynghylch y cais hwn am dystiolaeth	4
Cwestiynau	5

## RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD

---

Rwy'n falch o gael fy ngofyn i arwain yr Adolygiad o Arloesi Digidol ar gyfer yr Economi a Dyfodol Gwaith yng Nghymru. Sefydlwyd yr adolygiad mewn ymateb i'r sylweddoliad y bydd Cymru, fel nifer o wledydd eraill ledled y byd, yn cael ei newid yn sylfaenol yn sgil y chwyldro dechnolegol nesaf. Bydd yr effaith yn cael ei theimlo yn economaidd, ond bydd yr effaith honno hefyd yn llywio dyfodol lles cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Os ydych yn rhoi coel ar y storïau codi braw hynny sydd o'n cwmpas heddiw, mae'n ddigon posibl i chi gredu bod robotiaid yn mynd i ddod a dwyn ein swyddi ni. Mae'n debygol y bydd realiti'r sefyllfa yn dra gwahanol. Er gwaethaf yr heriau, mae cyfleoedd clir iawn i Gymru allu defnyddio technoleg i ehangu'r modd yr ydym yn byw ac yn gweithio. Rwy'n credu y bydd yr ailgyfuniad hwn o bobl a thechnoleg yn hollbwysig i ddyfodol Cymru ac y gallwn ddefnyddio technoleg i greu'r Cymru yr ydym i gyd am fyw ynddi, yn awr ac yn y dyfodol. O ddod o hyd i'r ffordd iawn o weithredu, gallwn wireddu hyn.

Rwy'n awyddus i'r adolygiad hwn ennyn y drafodaeth ehangaf bosibl gydag ystod o randdeiliaid, nid dim ond y bobl hynny sydd yn amlwg iawn ym maes datblygu technoleg. Dechrau'r drafodaeth hon yw'r Cais hwn am Dystiolaeth. Byddaf yn cydweithio â'm Panel o Arbenigwyr i edrych ar yr ymatebion a ddaw i law a chynllunio ar gyfer y camau nesaf o'r gwaith, sef dylanwadu ar bobl, busnesau a chymunedau yng Nghymru, a sicrhau eu bod yn rhan o'r gwaith hwn.

Yr Athro Phil Brown

Cadeirydd yr Adolygiad o Arloesi Digidol ar gyfer yr Economi a Dyfodol Gwaith yng Nghymru

## CEFNDIR

---

Rhagwelir y bydd y chwyldro dechnolegol nesaf yn newid y ffordd yr ydym yn byw, yn gweithio ac yn uniaethu â'n gilydd yn sylfaenol. Mae nifer o astudiaethau ymchwil wedi ceisio deall cwmpas a graddfa debygol y newid hwn. Wrth wneud hyn rydym wedi dod o hyd i feysydd risg sy'n dod i'r amlwg o ran Cymru, rhanbarthau Cymru, ei diwydiant a'i swyddi.

Cyhoeddwyd yr Adolygiad o Arloesi Digidol ar gyfer yr Economi a Dyfodol Gwaith yng Nghymru ym mis Mawrth 2018. Mae'r adolygiad yn anelu at feithrin dealltwriaeth pellach o ran yr heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag arloesi digidol yng nghyd-destun economi Cymru a dyfodol gwaith. Cadeirydd yr adolygiad yw'r Athro Phil Brown, Athro Ymchwil Nodedig ym Mhrifysgol Caerdydd, ac mae'n cael ei gefnogi gan Banel o Arbenigwyr sydd wedi dod ynghyd yn arbennig ar gyfer y gwaith hwn.

Bydd argymhellion terfynol yn cael eu gwneud erbyn mis Mawrth 2019, er bod gan yr adolygiad gwmpas i roi cyngor parhaus er mwyn gallu profi syniadau newydd a dysgu gwersi o ohonynt cyn gynted ag y bo modd. Bydd adroddiad interim yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Tachwedd.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr adolygiad, ei gylch gorchwyl a'i weithgareddau hyd yn hyn yn:

<https://beta.llyw.cymru/adolygiad-o-arloesi-digidol-ar-gyfer-yr-economi-dyfodol-gwaith-yng-nghymru/cylch-gorchwyl>

## MANYLION YNGHYLCH Y CAIS HWN AM DYSTIOLAETH

---

Mae'r adolygiad yn parhau i gymryd tystiolaeth gan ystod o randdeiliaid o fewn thu allan i Cymru. Comisiynodd y Cadeirydd nifer o bapurau briffio hefyd er mwyn crynhoi gwybodaeth dechnolegol a gwybodaeth ymchwil ar ymrwymiadau polisi presennol ac ymrwymiadau polisi ar gyfer y dyfodol, arfer gorau a'r tueddiadau cyfredol sy'n gysylltiedig ag arloesi digidol.

Hoffai'r adolygiad ychwanegu at y syniadau a'r dystiolaeth sydd wedi dod i law hyd yn hyn drwy ychwanegu mwy o bobl at y drafodaeth Mae'r cais hwn am dystiolaeth yn gyfle i'r holl randdeiliaid ddweud eu dweud a thynnu sylw at y camau y maent yn eu cymryd, neu'r camau yr hoffent eu gweld yn cael eu cymryd, er mwyn ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil arloesi digidol.

Yn ogystal ag ymateb i'r cwestiynau a geir yn y ddogfen hon, mae'r adolygiad yn awyddus i glywed am unrhyw ymchwil neu weithgareddau ymgysylltu sydd eisoes yn mynd rhagddynt, ac a fyddai yn ddefnyddiol i lywio ei waith. Lle bo hynny'n bosibl, cyfeiriwch at y gweithgareddau hyn yn yr ymatebion.

Nid yw hwn yn ymgynghoriad statudol gan Lywodraeth Cymru, nac ar ran Llywodraeth Cymru. Ni fydd ymatebion yn cael eu cydnabod yn unigol. Efallai y caiff yr wybodaeth a roddir mewn ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth, sef Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn bennaf.

Bydd unrhyw wybodaeth a ddaw i law yn cael ei phrosesu yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, ac o dan y rhan fwyaf o amgylchiadau bydd hyn yn golygu na fydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu i drydydd partïon.

Bydd y Cais hwn am Dystiolaeth yn aros yn fyw drwy gydol cyfnod yr adolygiad. Fodd bynnag, i ganiatáu i'ch mewnbwn ddylanwadu ar yr adroddiad terfynol a'r argymhellion, gofynnir am ymatebion erbyn dydd Gwener **30 Tachwedd**. Mae hwn yn estyniad i'r dyddiad cau a gyhoeddwyd.

Ymateb ar-lein yn:

<https://www.smartsurvey.co.uk/s/review-of-digital-innovation/>

Gellir cyflwyno ymatebion electronig i:

[AdolygiadArloesiDigidol@llyw.cymru](mailto:AdolygiadArloesiDigidol@llyw.cymru)

Neu, anfonwch gopi caled at:

Matthew Hicks – Adolygiad o Arloesi Digidol

d/o Gail Evans, Llywodraeth Cymru, Tŷ Ladywell, Y Drenewydd, SY16 1JB

## CWESTIYNAU

---

At ddibenion y cwestiynau isod, defnyddir y term 'arloesi digidol' i ymdrin ag ystod eang o ddatblygiadau technolegol – yn ddatblygiadau ffisegol a digidol – sy'n cael ei wneud ym maes awtomeiddio, roboteg, deallusrwydd artifisial, rhyngwyd pethau a data ar raddfa fawr.

### **Canfyddiadau ynghylch technoleg ddigidol yng Nghymru**

1. Yn eich barn chi, beth yw cryfderau presennol Cymru mewn perthynas ag arloesi digidol?
2. Oes yna dechnolegau neu alluoedd digidol lle mae Cymru yn arbennig o gryf o'i chymharu â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig neu wledydd eraill?
3. Pa rannau o economi Cymru sydd wedi addasu i'r newid technolegol digidol yn eithaf hawdd, a pha rannau o'r economi sydd wedi ei chael yn anodd i ddygymod â'r newid?
4. Sut ydych chi'n meddwl y mae swyddi a sgiliau wedi newid, neu sut y maent angen newid i gyd-fynd a thechnolegau digidol newydd?

### **Yr heriau a'r cyfleoedd sydd ynghlwm â thechnolegau digidol**

5. Beth yw'r prif heriau sy'n dod yn sgil technolegau digidol yn eich tyb chi? [Rhestrwch hyd at 5]
6. Beth yw'r cyfleoedd mwyaf a ddaw yn sgil technolegau digidol yn eich barn chi? [Rhestrwch hyd at 5]

### **Dyfodol arloesi digidol yng Nghymru**

7. Beth yn eich barn chi yw'r prif ysgogiadau mewn perthynas ag arloesi digidol, a fydd yn hanfodol o ran llunio dyfodol economi Cymru a sut y mae pobl yn gweithio? [Rhestrwch hyd at 5]
8. Pa gamau gweithredu sydd angen eu cymryd er mwyn diogel gweithlu Cymru yn y dyfodol mewn ymateb i'r newidiadau a ddaw yn sgil technolegau digidol?
9. At y dyfodol, pa gamau sy'n rhaid eu cymryd yng Nghymru er mwyn gallu manteisio i'r eithaf ar y datblygiadau sy'n cael eu gwneud ym maes technolegau digidol ar hyn o bryd ac yn y deg i ugain mlynedd nesaf?

10. Sut y gellir amddiffyn buddiannau'r gweithlu wrth edrych am fwy o gyfleoedd arloesi digidol?
11. Sut y bydd angen newid y dull gweithredu o ran polisi a strategaeth yng Nghymru:
  - (i) o gofio'r cyfleoedd a'r heriau a ddaw yn sgil arloesi digidol; a,
  - (ii) er mwyn sicrhau bod arloesi digidol yn cefnogi Gwaith Teg a chynhwysiant economaidd a chymdeithasol?
12. Sut y gall y sector cyhoeddus a'r sector preifat gydweithio i fanteisio ar y datblygiadau ym maes arloesi digidol?

### **Sylwadau terfynol**

13. Yn eich barn chi a yw datblygiadau technolegol yn fwy o fygythiad neu'n gyfle i'r gwaith yr ydych chi'n ei wneud? [Nodwch un yn unig]
  - Mwy o gyfle nac o fygythiad
  - Mwy o fygythiad nac o gyfle
  - Y cyfleoedd yr un mor amlwg â'r bygythiad
  - Ddim yn gwybod
14. Yn eich barn chi, a yw datblygiadau technegol yn fwy o fygythiad neu'n fwy o gyfle i'ch gweithlu presennol? [Nodwch un yn unig]
  - Mwy o gyfle nac o fygythiad
  - Mwy o fygythiad nac o gyfle
  - Y cyfleoedd yr un mor amlwg â'r bygythiad
  - Ddim yn gwybod
15. A hoffech ychwanegu unrhyw sylwadau eraill mewn perthynas â thechnoleg digidol?
16. Yn olaf, os oes un mater sy'n ymwneud ag arloesi digidol a allai beri i chi gollu cwsg, beth yw'r mater hwnnw?

